**Adroddiad i:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26 Chwefror 2013.

**Aelod Arweiniol:** Cynghorydd David Smith, Parth Cyhoeddus

**Swyddog Arweiniol:** Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus.

**Awdur yr Adroddiad:** Bryn Bowker, Swyddog Polisi Cynllunio.

**Teitl: Adrodd nôl ar yr ymgynghoriad ar nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl.**

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hysbysu Aelodau o'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd ynghylch nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, ac amlinellu unrhyw newidiadau a gynigir i'r ddogfen o ganlyniad i hynny. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl rhwng Hydref 24 a Rhagfyr 19 2012.

1.2. Fel y gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol sydd eisoes yn bodoli, bydd nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, os caiff ei fabwysiadu, yn ystyriaeth gynllunio o bwys wrth asesu ceisiadau cynllunio. Bydd nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl hefyd yn darparu strwythur i'r Cyngor wrth iddo fwrw ymlaen gydag adfywiad yng Ngorllewin y Rhyl, gan gynnwys Gorchmynion Prynu Gorfodol sydd ar y gweill. Nod pellach yw denu buddsoddiad preifat i'r ardal. Mae map yn dangos yr ardal o fewn dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl ynghlwm fel atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ynghylch mabwysiadu nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl ai pheidio, fel y gellir ei ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth asesu ceisiadau cynllunio a hefyd i lywio adfywiad yr ardal. Mae nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl wedi cael ei drafod gydag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar Ionawr 23. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio eu cefnogaeth i'r ddogfen.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod Aelodau'n mabwysiadu'n ffurfiol nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl i'w ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth asesu ceisiadau cynllunio ac i lywio adfywiad yr ardal.

**4. Manylion yr Adroddiad.**

*Cefndir.*

4.1. Mae'r materion cymdeithasol ac economaidd sy'n herio Gorllewin y Rhyl yn adnabyddus. Mae Gorllewin y Rhyl yn rhan o ardal ehangach sydd wedi'i lleoli o fewn 'Ardal Adfywiad Arfordir Gogledd Cymru' a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda nifer o ddogfennau strategol wedi cael eu cynhyrchu ar lefel llywodraeth wladol a lleol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol ac economaidd hyn. Mae dull mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru i fesur amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn nodi bod 'Gorllewin y Rhyl 1' a 'Gorllewin y Rhyl 2' yn 7$^{fed}$ a 1$^{af}$ allan o 1896 o ardaloedd a aseswyd yng Nghymru.

4.2. Bwriad nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl yw helpu mynd i'r afael â'r materion cymdeithasol ac economaidd hyn trwy sefydlu amcanion i'r ardal, nodi'r hyn sy'n dderbyniol o ran defnydd cynllunio ar fframwaith datblygu ardal, a thrwy amlinellu egwyddorion datblygu allweddol y byddai'n rhaid i geisiadau cynllunio yn yr ardal dan sylw gadw atyn nhw. Calon y cynllun yw creu gofod agored o bwys, gwella ansawdd tai a'r amgylchedd adeiledig, ac adnabod safleoedd a fyddai'n addas ar gyfer datblygiad newydd, gan gynnwys gwaith a defnydd twristiaeth i gyd-fynd â'r stryd fawr gyfagos.

*Ymgynghoriad .*

4.4. Yn y Pwyllgor Cynllunio ym Medi 2012, cytunwyd ar gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, y cwmpas a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

4.5. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus i Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl dros 8 wythnos, rhwng 24 Hydref - 19 Rhagfyr 2012. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys hysbysiad i'r wasg yn y Rhyl Journal, defnydd o wefan y Cyngor a llythyr i dros 390 o sefydliadau/unigolion, gan gynnwys: Cyngor Tref y Rhyl; Cymdeithas Maes Chwarae Antur Rhyl, Asiantaeth Gymunedol Rhyl ac asiantaethau lleol, yn eu hysbysu o'r ymgynghoriad ac yn dweud wrthynt sut i ymateb. Danfonwyd llythyron â llaw hefyd i bob eiddo yn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl. Roedd copïau o'r ddogfen a phosteri hyrwyddo ar gael yn Neuadd y Dref Rhyl, Llyfrgell Rhyl, Canolfan Foryd, Y Pentref, Rhyl a Chaledfryn, Dinbych.

4.5. Cynhaliwyd sesiwn 'galw heibio' anffurfiol a roddodd gyfleoedd i aelodau'r cyhoedd drafod cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol gyda swyddogion. Cynhaliwyd y sesiwn yn Neuadd y Dref Rhyl ar Ddydd Mercher, 7 Tachwedd, 3pm-7pm. Ymhellach, trefnodd Sir Ddinbych gyfarfod anffurfiol gydag aelodau Cyngor Tref y Rhyl. Bu Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn trafod y ddogfen gyda Grŵp Aelodau'r Ardal.

4.6. Derbyniodd y Cyngor 15 ymateb i'r ymgynghoriad, a chodwyd y materion canlynol:

- Mae gan Orllewin y Rhyl ddigon o fannau gwyrdd.

- Dylid adnewyddu tai yn hytrach na'u dymchwel.
- Mae'r uchelgais a'r weledigaeth i Orllewin y Rhyl yn rhy eang.
- Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn canolbwyntio ar ofod agored na fydd o reidrwydd yn gwireddu'r adfywiad a amlinellir.
- Mae angen adnabod ffynhonnell refeniw ar gyfer cynnal/rheoli'r gwaith arfaethedig.
- Dylai ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol gynnwys safle'r Ocean Plaza.
- Dylai'r ardal Adfywio fod yn cynnig cefnogaeth ariannol i berchnogion preifat gyda safonau pendant i ardaloedd sy'n cael eu galw'n 'ardaloedd heb unrhyw newid'.
- Byddai mwy o adnewyddu yn gwella natur hanesyddol yr ardal.
- Mae'r canllawiau dylunio yn rhy ragnodol a bydd hynny'n arwain at ddyluniad difflach.

4.7. Mae ymatebion manwl i'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi a'u cynnwys yn atodiad 2, sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw newidiadau arfaethedig i Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl. Mae fersiwn diwygiedig o Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl ar gael yn Gymraeg a Saesneg gyda newidiadau wedi'u nodi fel atodiad 3. Gellir gweld y sylwadau gwreiddiol ar gais i'r tîm Polisi Cynllunio.

4.8. Mae newidiadau allweddol arfaethedig i'r ddogfen yn cynnwys:
- Ychwanegu cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cenedlaethol.
- Mapiau wedi'u golygu i wahaniaethu rhwng dwy ardal gadwraeth wahanol.
- Dileu cyfeiriad at yr ardal gadwraeth fel 'cyfyngiad'.
- Cyfeiriad at faes parcio cyhoeddus newydd ar Crescent Road.
- Ychwanegu testun i gadarnhau bod y Cyngor yn bwriadu gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gynhyrchu cyngor pellach ar lifogydd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17*. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig canlynol:

- *Datblygu'r Economi Lleol* – trwy osod y fframwaith ar gyfer creu cymuned fwy cytbwys, bydd y ddogfen yn helpu lleihau amddifadedd yn y rhan hon o Orllewin y Rhyl, yn helpu i ymdrin â chysylltiadau negyddol gyda'r ardal, yn hybu hyder y sector preifat a buddsoddiad yn y Rhyl, ac yn creu swyddi newydd a chyfleoedd busnes.
- *Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da* - trwy chwarae rôl allweddol wrth helpu i wireddu'r flaenoriaeth o "gynnig ystod o fathau a ffurfiau o dai ... i gyflawni anghenion unigolion a theuluoedd".

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol gan y bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i hasesu fel rhan o gais cynllunio. Gellir cynhyrchu copïau papur o nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl Paper o fewn y gyllideb bresennol, tra bydd copi electronig o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

6.3. Ni chredir y bydd y ddogfen yn arwain at niwed annerbyniol i’r amgylchedd naturiol neu fioamrywiaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cysylltu’r templed EqIA a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

7.1 Mae dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl wedi’i sgrinio ac ni chredir bod angen asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn gan na fyddai’r ddogfen yn arwain at wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithiol neu ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r templad sgrinio cyflawn ynghlwm fel atodiad 4 i’r adroddiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

8.1 Fel yr amlinellwyd yn adran 4.4 o’r adroddiad, mae proses ymgynghori lawn wedi digwydd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

9.1 Dylai unrhyw gostau cysylltiedig â’r canllawiau gael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg o fewn yr adroddiad.

**10. Beth yw’r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Nod y Canllawiau Cynllunio Atodol yw darparu fframwaith cynllunio eglur ar gyfer symud ymlaen gydag adfywio Gorllewin y Rhyl ac ar gyfer llywio unrhyw benderfyniadau cynllunio. Heb ganllawiau eglur, mae risg o fethu cael ymagwedd holistig a chyson at ymdrin â chynigion datblygu, a byddai hynny’n ei gwneud yn anodd i wrthod ceisiadau cynllunio sydd ddim yn cyd-fynd gyda’r strategaeth a amlinellwyd i Orllewin y Rhyl. Ymhellach, byddai absenoldeb dogfen o’r fath yn tanseilio’r dystiolaeth sylfaenol a ddefnyddir i helpu cefnogi gorchmynion prynu gorfodol, ac fe ystyrir bod gorchmynion o’r fath yn hanfodol i’r broses o adfywio Gorllewin y Rhyl.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Deddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.